# ADOLYGIAD YMARFER OEDOLION BDCTM

# OEDOLYN R

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

## 1 Cefndir

Bu farw Oedolyn R yn haf 2021. Roedd hi yn ei chwedegau ac mae ei marwolaeth hi'n cael ei thrin fel hunanladdiad llwyddiannus. Roedd Oedolyn R yn wraig, yn fam ac yn fam-gu. Roedd hi'n nyrs gofrestredig am flynyddoedd maith cyn iddi hi ymddeol yn 50 oed. Disgrifiad ei gŵr hi o Oedolyn R oedd ei bod hi'n fenyw falch oedd yn ymfalchïo yn ei hymddangosiad a'i chartref. Roedd hi'n mwynhau darllen a mynd ar wyliau bob blwyddyn gyda'i gŵr hi.

## 2 Cyd-destun

Ym mlwyddyn olaf bywyd Oedolyn R, roedd hi wedi dioddef profedigaeth ddwywaith. Bu farw ei mam a'i brawd yn 2020 ac roedd hynny wedi cael dylanwad syfrdanol ar les emosiynol Oedolyn R. Roedd Oedolyn R wedi cael cyfnod gwirfoddol fel claf mewnol mewn uned iechyd meddwl. Roedd hynny wedi dilyn pryderon sylweddol a gafodd eu mynegi gan ei theulu am ei bod hi'n dangos ymddygiad ymosodol, yn gorfforol ac ar lafar, ac ar bigau'r drain. Doedd Oedolyn R ddim fel arfer yn ymddwyn felly.




## 3 Themâu a ddaeth i'r amlwg

- Cydnabod effaith dirywiad neu newid yn ymddangosiad person â phroblemau iechyd meddwl neu gorfforol hirdymor.
- Deall ac asesu effaith newid sylweddol ym mywyd person a'r canlyniadau posibl o ran eu hiechyd a'u lles meddyliol.
- Diffyg rhannu gwybodaeth.
- Diffyg gwybodaeth a sgiliau digonol o fewn asiantaethau o ran cam-drin yn y cartref a'r broses o gynnal Cynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaeth fel bod modd iddyn nhw ddangos y ffordd a rhoi cymorth.

## 4 Ymarfer Effeithiol

- Roedd yr asiantaethau'n gyson o ran eu hymdrechion i ymgysylltu ag Oedolyn R.
- Gweithiodd y gwasanaethau iechyd meddwl gydag Oedolyn R a chynnal cyfarfodydd amlddisgyblaethol i gydlynu ei gofal hi.
- Cynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaeth – cynrychiolaeth dda gan yr holl asiantaethau.
- Gwnaeth Uned Cam-drin yn y Cartref Heddlu De Cymru sawl ymdrech i ymgysylltu ag Oedolyn R.
- Ymatebodd y gwasanaethau brys i alwadau 999 yn gyflym a gwnaethon nhw ymdrech i ymgysylltu ag Oedolyn R, er i hyn fod yn ystod pandemig COVID-19.

## 5 Gwella Systemau ac Ymarfer

- Mae gan ymarferwyr iechyd fynediad at hyfforddiant cam-drin yn y cartref felly mae gyda nhw ddealltwriaeth dda o'r cymhlethdodau sy'n rhan o berthynas person hŷn.

- Mae gyda chynrychiolwyr Cynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaeth fynediad at hyfforddiant sy'n eu helpu nhw i ddeall eu rôl wrth ffurfio ymateb i ddiogelu oedolion mewn perygl o gam-drin yn y cartref. Dylai hwn gynnwys canllawiau ar rannu gwybodaeth o fewn eu sefydliadau nhw.

## 6 Gwella Systemau ac Ymarfer

- Doedd ymarferwyr ddim yn effro i unrhyw wasanaethau y byddai'n gweithio gyda pharau sydd am barhau i fod mewn perthynas. Mae angen i gefnogaeth briodol fod ar gael i helpu i ddatblygu cynlluniau a fydd yn ategu cydnerthedd a lleihau risgiau.
- Dylai asiantaethau annog chwilfrydedd proffesiynol a'i ymgorffori'n rhan o'u gwaith. Mae angen i ymarferwyr ddangos hyder wrth drafod teimladau hunan-laddol a herio pobl sydd mewn perygl â pharch.

## 7 Gwella Systemau ac Ymarfer

- Mae angen i asiantaethau, gan gynnwys y gwasanaethau brys, gael mynediad at wybodaeth gefndirol berthnasol a fydd yn rhoi'r modd iddyn nhw ystyried ffactorau risg yn ystod eu hasesiad i lunio penderfyniadau diogel.
- Mae ymarferwyr yn cydnabod yr effaith y mae modd i gyflwr person ei chael ar aelodau o'u teulu ac ar eu perthynasoedd. Bydd cyfathrebu effeithiol gyda theuluoedd a chynhalwyr yn sicrhau bod modd iddyn nhw gael mynediad at gymorth ar gyfer eu hunain a'r person o dan eu gofal nhw.